PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 159 | Rhif 12 | Mawrth 19, 2026 | 50c.

# Rhagor o'r Cyngor

Dyma ddau adroddiad pellach o'r hyn a drafodwyd gan Adrannau Cyngor Undeb yr Annibynwyr a gynhaliwyd yn Llety Parc, Aberystwyth ar ddydd Gwener a Sadwrn 6–7 Mawrth. Cafwyd trafodaethau bywiog ac adeiladol yn yr holl adrannau a hynny gydag ysbryd ffyddiog a llawen. Mae gan yr Undeb bedair Adran sy'n ymdrin ag amrywiol faterion sef, Adran Tystiolaeth, Adran Cenhadaeth a'r Eglwys Fyd-eang, Adran Dinasyddiaeth Gristnogol ac Adran Eglwysi a'u Gweinidogaeth.

## Adran Cenhadaeth a'r Eglwys Fyd-eang:

Cafwyd trafodaeth dda ac iach wrth drin materion allweddol i Adran Cenhadaeth a'r Eglwys Fyd-eang.

- **Prosiect Denman** – derbyniwn fod yn rhaid ehangu apêl y prosiect, ac felly'r bwriad yw ailfrandio. Y cam cyntaf yn hynny, fydd cystadleuaeth i gynnig enw newydd i'r prosiect. Bydd yr enillydd yn derbyn gwobr, a chyfle i fod yn rhan o'r broses o greu logo, a hyn oll yn arwain at lansiad swyddogol o'r fenter ar ei newydd wedd.
- **Maes digidol (MSP4)** – cafwyd diweddariad ar y ddarpariaeth eang o gyfryngau cerddorol, defosiynol a barddonol sydd ar gael i'n heglwysi. Anogwyd pob eglwys i wneud defnydd llawn o'r adnoddau hyn.
- **CWM** – ein braint fydd cael croesawu Cymanfa CWM i Gymru yn 2028. Fel gyda phob braint, daw cyfrifoldeb a gwaith.
- **Derbyn eglwysi newydd i'r Undeb** – cynigwyd a derbyniwyd adroddiad gan y gweithgor yn amlinellu fel y gellid yn hawdd a diogel gynnig ffordd i eglwysi newydd neu eglwysi sydd am ailgynnau eu perthynas â'r Undeb i wneud hynny. Cytunwyd i weithredu ar argymhellion y gweithgor er mwyn cael cyflwyno cynnig cyflawn i'r gynhadledd flynyddol ym mis Medi.
- **Hyfforddiant digidol** – cafwyd diweddariad o'r cyfleoedd i dderbyn hyfforddiant digidol, gan dynnu sylw at sesiwn hyfforddiant o dan arweinyddiaeth y Parchg Beti-Wyn James ar y defnydd o raglen PowerPoint, sydd yn cael ei gynnal ar Zoom nos Lun Ebrill 13 am 7pm
- **Cenhadaeth: ein cyfle** – derbyniwyd adroddiad y gweithgor, a chytunwyd mai'r cam orau i gychwyn buasai penodi person am gyfnod penodedig i ddarparu trosolwg ar ein sefyllfa, ein hanghenion, ein cyfleoedd ac i estyn i ni felly bob cymorth i baratoi strategaeth ystyrlon i'r dyfodol.



## Adran yr Eglwysi a'u Gweinidogaeth

Prif ffocws y cyfarfod oedd sicrhau bod yr Undeb yn ymateb yn gyfrifol ac yn greadigol i anghenion eglwysi a chymunedau.



### Gweinidogaethau amgen

Yn gyntaf, trafodwyd gwaith panel newydd sy'n archwilio pa weinidogaethau amgen y dylid eu cydnabod yn swyddogol, y tu hwnt i'r rhai sydd eisoes yn y *Blwyddiadur*. Nodwyd wyth maes allweddol: y weinidogaeth ordeiniedig, pregethwyr cynorthwyol cydnabyddedig, arweinwyr eglwys cydnabyddedig, gweinidogaethau arloesol, caplaniaethau, gweinidogaeth gyda phobl ifanc a theuluoedd, gweinidogaeth fugeiliol, a gweinidogaeth ar yr aelwyd. Cytunwyd i ofyn i'r Panel Gweinidogaethau barhau â'r drafodaeth a chyflwyno papur trafod i'r Adran maes o law.



### Y Diwygiad Tawel

Yna ystyriwyd yr hyn a elwir yn 'Ddiwygiad Tawel', sef adroddiadau cynyddol am ddiddordeb newydd mewn ffydd Gristnogol ymhlith pobl ifanc 18–25 oed. Gofynnwyd i Arfon

*parhad ar dudalen 2*

# Peniel, Caerfyrddin

### Oedfa deuluol

Cynhaliwyd oedfa hyfryd ar fore ddydd Sul, 8 Chwefror o dan arweiniad teulu Daphne a Huw Jones, Hafod. Rhannwyd neges bwerus yn canolbwyntio ar bwysigrwydd dweud diolch yn ein gweddïau, gan ein hannog ni gyd i ddatblygu calon fwy diolchgar yn ein taith ddyddiol gyda Duw. Cawsom ein cyffwrdd yn arbennig gan ailadrodd hanes y deg dyn a iachawyd o'r gwahanglwyf gan Iesu. Tynnwyd sylw at y ffaith, er bod y deg wedi derbyn yr iachâd, mai ond un a ddychwelodd at draed yr Iesu a chynnig ei ddiolch.

Roedd hyn yn ein hatgoffa ni i gyd i ymdrechu i fod yr 'un' hwnnw – i beidio byth â chymryd ein bendithion yn ganiatäol, a chofio bob amser i fynegi ein diolchgarwch i'r Arglwydd. Uchafbwynt arbennig y bore oedd cyfraniad plant y teulu gyda'u perfformiad llawen o'r gân 'Diolch, Diolch, Iesu', a gipiodd ysbryd y gwasanaeth yn berffaith. Diolch yn fawr i Huw, Daphne a holl aelodau'r teulu am eu paratoadau a chyfraniadau i'r gwasanaeth hwn.

**Carys Ann Jones**



### Grŵp trafod y Beibl

Ym mis Chwefror cawsom fendith wrth fyfyrio ar y geiriau, 'Y mae cariad yn amyneddgar.' (I Corinthiaid 13:4(a)) Defnyddiwn yr ymadrodd, 'amynedd Job'. Na, 'amynedd Duw' yw'r safon. Sonia Morgan Rhys yn un o'i emynau am 'rhyfedd amynedd Duw'. Mae'r gair a gyfieithir fel amynedd (*makrothumeo*) yn air disgrifiadol. Ei ystyr llythrennol yw, 'cymryd amser hir i ferwi'. Meddyliwch am sosbaned o ddŵr yn berwi. Pa ffactorau sy'n penderfynu'r cyflymdra mae'r dŵr yn berwi? Maint y sosban? Efallai bod gan faint y sosban rhyw ychydig i wneud â'r cyflymder y mae'r dŵr yn berwi ond y prif ffactor yw dwyster y fflam. Mae dŵr yn berwi'n gyflym pan yw'r fflam yn uchel. Mae dŵr yn berwi'n araf pan yw'r fflam yn isel. Mae amynedd yn cadw'r fflam yn isel. Nid yw amynedd yn naïf. Nid yw amynedd yn anwybyddu camymddwyn. Mae'n cadw'r fflam yn isel. Mae'n sefyll. Mae'n gwrando. Mae'n araf i ferwi.

Dyma sut mae Duw yn ein trin ni. Pe buasai Duw yn dymuno gallai chwalu'r byd hwn yn ddarnau. Pe buasai'n ddyn buasai wedi gwneud hynny ers tro byd, buasai wedi colli ei amynedd yn llwyr gyda dynion yn anwybyddu ei ewyllys ac yn byw mewn gwrthryfel yn ei erbyn, ond 'Cariad yw Duw' ac y mae cariad yn amyneddgar. Yr hyn a wnaeth Duw yn ei faith amynedd oedd dyfod atom yn Iesu Grist i'n denu ni â'i gariad. 'Nid i gondemnio'r byd yr anfonodd Duw ei Fab i'r byd, ond er mwyn i'r byd gael ei achub drwyddo ef' (Ioan 3:17) – i wynebu cosb pechod yn ein lle a'n galw ni i edifeirwch, i ddilyn ôl ei draed. Yn Iesu Grist mae Duw yn estyn ei law i ni. Rhaid i ni'n bersonol ddod wyneb yn wyneb â Christ, a chydnabod wrth wneud hynny ein bod ni yn edrych ym myw llygaid Duw ei hun. Mae amynedd Iesu Grist yn dadlennu amynedd Duw. Mae amynedd a goddefgarwch yr Arglwydd Iesu yn amlwg iawn yn arbennig wrth iddo wynebu Calfaria. Roedd e'n amyneddgar gyda phobl oedd mor greulon tuag ato. Wedi ei gondemnio ar gam o gabledd gan y Sanhedrin, 'dechreuodd rhai boeri arno a rhoi gorchudd am ei wyneb, a'i gernodio a dweud wrtho, "Proffwyda." Ac ymosododd y gwasanaethwyr arno â dyrnodiau.' (Marc 14:65). Yn y Praetoriwm rhoddodd y milwyr Rhufeinig glogyn porffor amdano a choron o ddrain ar ei ben. Curasant ei ben â gwialen, a phoeri arno a'i watwar.

Beth oedd ymateb yr Arglwydd Iesu i'r holl bobl yma oedd yn ei bryfocio? Gwylltio a melltithio? Nage. Dywed Pedr: 'Pan fyddai'n cael ei ddifenwi, ni fyddai'n difenwi'n ôl; pan fyddai'n dioddef, ni fyddai'n bygwth, ond yn ei gyflwyno'i hun i'r Un sy'n barnu'n gyfiawn.' (1 Pedr 2:23) Wynebodd elyniaeth, dioddefaint corfforol, meddyliol ac ysbrydol arswydus, amarch a'r gwaradwydd gwaethaf posibl gyda dycnwch a chadernid, heb daro nôl – mynnodd wynebu'r Groes fel oen diniwed yn mynd i'r lladdfa drosom ni. Gweddïa Paul y caiff Cristnogion drwy eu hymgysegriad i Grist gael eu meddiannu â'r un gras a'r dycnwch a'r amynedd oedd yn eiddo iddo ef. 'Bydded i'r Arglwydd gyfeirio eich calonnau at gariad Duw ac at amynedd Crist!' (2 Thesaloniaid 3:5)

**Andrew Lenny**

*(Allan o Pigion Peniel, Rhif 25: Mawrth 2026)*

## Rhagor o'r Cyngor – *parhad*

Jones baratoi papur trafod cynhwysfawr ar y pwnc, gan gynnwys cefndir a phwyntiau trafod, er mwyn gallu neilltuo amser digonol i'r mater yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

### Y cod ymddygiad i weinidogion

Trafodwyd hefyd y cod ymddygiad i weinidogion. Diolchwyd i JHH a CS am y drafft cyntaf, ond gofynnwyd am addasiadau i sicrhau tôn fwy gwerthfawrogol a gofalgar, ynghyd ag adrannau newydd ar ddisgwyliadau ymddygiad ac ar ofal eglwysi a diaconiaid. Bydd ail ddrafft yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf.

### Dogfennau i'w hadolygu

Derbyniwyd dwy ddogfen i'w hadolygu – Gweinidogaethau Bro a Llawlyfr Eglwysi – tra bod Y Cynllun Arweinyddion eisoes wedi ei ddiwygio. Cytunwyd y bydd y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd yn ffurfio panel bach i ymdrin â'r gwaith hwn.

### Cenhadaeth o'r cyrion

Yn olaf, trafodwyd menter CWM, *Mission From the Margins*, sy'n annog eglwysi i feithrin croeso cynhwysol i'r rhai ar gyrion cymdeithas. Pwysleisiodd yr Adran bwysigrwydd diwinydda'n iach ar werth pob person a datblygu ffyrdd ymarferol o ymestyn croeso Crist. Cytunwyd i sefydlu grŵp i baratoi papur trafod, cynnal cyfarfod Zoom, a llunio cynnig erbyn 8 Mai ar gyfer y Cyfarfodydd Blynyddol.

**Casi Jones**

Yr Adran Gydenwadol
MAWRTH 19 2026 RHIF 264

# Arweiniad Cytûn i Etholiadau Senedd Cymru 2026




Cynhelir yr etholiad nesaf i'r Senedd ym mis Mai 2026, gan fod cyfraith Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i etholiadau'r Senedd gael eu cynnal bob pum mlynedd. Bydd pleidleiswyr ledled Cymru yn ethol Aelodau o'r Senedd (ASau) i'w cynrychioli ac i wneud penderfyniadau ar faterion sydd wedi'u datganoli, megis iechyd, addysg a'r amgylchedd. Bydd etholiad 2026 yn defnyddio'r system newydd a gyflwynwyd gan Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Yn hytrach na phleidleisio fesul etholaeth a rhanbarth fel yn y gorffennol, bydd yna nifer o etholaethau mwy a fydd yn cynnwys sawl aelod, a etholir drwy ddull pleidleisio cyfrannol.

Mae'r etholiad hwn yn gyfle allweddol i bobl Cymru helpu i lunio cyfeiriad llywodraeth y wlad yn y dyfodol ac i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu cynrychioli wrth wneud penderfyniadau cenedlaethol.

Deunyddiau, cyngor ac arweiniad ar sut i ymgysylltu â'r broses etholiadol

Mae deunyddiau etholiad Cytûn yn cynnig arweiniad clir a hygyrch i helpu eglwysi ac unigolion ledled Cymru i ymwneud yn hyderus ag Etholiad y Senedd 2026. Mae ein hadnoddau'n dwyn ynghyd wybodaeth ddiduedd am y materion dan sylw, cyngor ymarferol ar gynnal trafodaethau teg a pharchus, ac awgrymiadau ar sut y gall cynulleidfaoedd gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd.

P'un a ydych yn ceisio deall y system etholiadol newydd, yn cynnal digwyddiad, yn archwilio themâu polisi o safbwynt Cristnogol, neu'n cefnogi'ch cymuned i wneud dewisiadau gwybodus, mae deunyddiau Cytûn wedi'u cynllunio i roi cefnogaeth ddibynadwy, gytbwys a myfyriol i chi drwy gydol cyfnod yr etholiad.

Gellir dod o hyd i holl adnoddau Cytûn i'ch cefnogi chi, eich eglwys neu eich enwad yn Adran Adnoddau gwefan Cytûn.org.

## Gweddi wrth baratoi ar gyfer etholiad Senedd Cymru ym mis Mai

**Arglwydd Dduw hollalluog,**
Deuwn ger dy fron wrth i'n gwlad baratoi ar gyfer etholiad Senedd Cymru.
Diolchwn am y rhyddid sydd gennym i bleidleisio ac i gymryd rhan
yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar fywyd ein cymunedau a'n gwlad.
Rho ddoethineb i bob un ohonom wrth feddwl, trafod a dewis.
Helpa ni i wrando ar ein gilydd gyda pharch ac urddas, ac i geisio'r hyn sydd er lles pawb
o fewn ein cymdeithas.
Bendithia'r rhai sy'n sefyll fel ymgeiswyr.
Rho iddynt ysbryd o onestrwydd, gostyngeiddrwydd a gwir awydd i wasanaethu'r bobl.
Cadw nhw rhag balchder a hunan-les,
a thywys nhw i geisio cyfiawnder, trugaredd a gwirionedd.
Gweddïwn dros Gymru a'i phobl –
dros ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi,
dros ein teuluoedd a'n cymunedau.
Boed i'r rhai a etholir arwain gyda doethineb a gofal,
gan geisio cyfiawnder, tegwch a ffyniant i bawb.
Arglwydd, bydd gyda ni yn y dyddiau hyn o benderfynu,
ac arwain ein gwlad yn dy oleuni a'th lewyrch di.
Amen.

*Aled Davies*

S4C
*S4C Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 22 Mawrth, am 6:45yh – Ein Milltir Sgwâr**
Mae Lisa Gwilym yn Nyffryn Clwyd yng nghwmni'r teuluoedd sy'n cael gofal amhrisiadwy yng Nghapel y Waun, ger Llanelwy. Daw'r canu o Gapel Rehoboth, Prestatyn, dan arweiniad Trystan Lewis.

BBC radio cymru
*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 22 Mawrth, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Siôn Brynach

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 22 Mawrth, am 12:00yp – Y Grawys o Gaernarfon**
Oedfa dan arweiniad Hannah Smethurst

# Y GRAWYS – WYTHNOS 5

## Arweinyddiaeth




### Darlleniad

*Mathew 5:1–12*

### Myfyrdod

Ar adeg pan mae hunaniaeth Gristnogol yn cael ei thynnu i mewn i ofod dadleuol gwrthdaro cymdeithasol, gall fod yn ddefnyddiol troi at y Gwynfydau i'n hatgoffa ein bod yn cael ein galw i ddangos arweinyddiaeth mewn cymdeithas. Hyd yn oed pan fydd byw yn ôl y gwerthoedd hynny'n costio'n ddrud inni, nid ydym ar ein pennau ein hunain. Nid yw arweinyddiaeth Gristnogol wedi'i datgysylltu oddi wrth farn y cyhoedd oherwydd galwad i wrando ar bryderon y gymuned yw'r alwad i garu ein cymydog. Mae'r gwrando a'r ymgysylltu hwn wedi'u hangori yng ngwerthoedd ein ffydd. Efallai ein bod yn teimlo nad oes angen dweud hyn ond, yn ddiweddar, yn wyneb heriau pan welir ffeithiau'n cael eu gwyrdroi neu geisiadau i gamfeddiannu ein treftadaeth a'n hunaniaeth Gristnogol, awgrymwyd y gallai fod angen i eglwysi fyfyrio'n feirniadol ar gynnwys eu negeseuon. Yn rhy aml byddwn yn syrthio i'r fagl o fod yn adweithiol, gan ganiatáu i'n hiaith gael ei phennu gan eraill. Yn ddi-os mae herio iaith ac agweddau cynhennus yn bwysig, ond o leiaf yr un mor bwysig yw'r angen inni ddatgan ein gwerthoedd yn rhagweithiol ac yn gadarnhaol, hyd yn oed lle gall hyn ymddangos yn amlwg.

Mae'r Gwynfydau yn ein hatgoffa na fydd sefyll dros yr hyn sy'n iawn a cheisio gweithredu'n gyfiawn yn dwyn ffrwyth ar unwaith. I'r gwrthwyneb, gall ymrwymo i gyfiawnder yn aml roi pobl mewn perygl o ddioddef ymosodiad. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn rydym wedi gweld arweinwyr eglwysig, yn ogystal ag arweinwyr mewn sectorau eraill o gymdeithas, yn destun beirniadaeth ac ymddygiad bygythiol oherwydd eu safbwynt ar faterion cyfiawnder cymdeithasol. Ar hyn o bryd, trwy waith Rhwydwaith Ffoaduriaid yr Eglwysi a'n cefnogaeth i broject yr Eglwys Noddfa rydym yn arbennig o ymwybodol o'r ymosodiadau ar y sefydliadau hynny sy'n gweithio i gynorthwyo a chefnogi pobl sy'n ceisio lloches. Ond mae profiadau tebyg hefyd wedi'u hadrodd gan bobl sy'n gweithio i fynd i'r afael â hiliaeth, i hyrwyddo deialog rhwng crefyddau neu eirioli dros gyfiawnder hinsawdd.

Gall dangos ein cefnogaeth i'r rhai sy'n rhoi arweinyddiaeth gadarnhaol wneud cyfraniad pwysig. Ar adeg pan mae llawer o bobl yn teimlo'n wedi'u dieithrio o brosesau gwleidyddol, gall fod yn ddefnyddiol tynnu sylw at waith yr arweinwyr gwleidyddol hynny sy'n ceisio dod â phobl at ei gilydd ac annog mwy o Gristnogion i ystyried gwleidyddiaeth fel maes lle gallant ddangos arweiniad. Yn ddiweddar mae eglwysi hefyd wedi'u cael eu hunain yn gorfod siarad i amddiffyn yr hawl i brotestio heddychlon a dadlau nad yw hyn yn anghydnaws â'n cefnogaeth i ymgysylltu cadarnhaol â phrosesau gwleidyddol.

Ar adegau o densiwn a brwydro, mae cymunedau'n falch o weld eu harweinwyr yn dod at ei gilydd. Gall hyn helpu i roi ymdeimlad o ddiogelwch yn ogystal â gobaith. Yn aml, gall eglwysi Cristnogol, yn enwedig wrth weithio mewn partneriaeth â chymunedau ffydd eraill, ffurfio craidd ymatebion cymunedol ar y cyd i heriau. Mae hyn oherwydd eu bod mewn sefyllfa o ymddiriedaeth ac wedi'u sefydlu yn y gymuned, ond hefyd oherwydd canfyddiadau cadarnhaol o'r gwerthoedd sy'n llywio eu harweinyddiaeth.

### Cwestiynau i fyfyrio arnynt a'u trafod

- Ydych chi'n teimlo bod yr Eglwys ar hyn o bryd yn gwneud digon i gefnogi ac annog arweinyddiaeth gadarnhaol mewn sectorau eraill o gymdeithas?
- Pa negeseuon am arweinyddiaeth wleidyddol, os o gwbl, ydych chi'n eu clywed yn eich cyd-destun eglwysig? Hoffech chi weld unrhyw newidiadau yn hynny o beth?
- Ble welwch chi bartneriaid yn y gwaith hwn y tu hwnt i'r Eglwys yn y gymuned leol?

### Gweithredu

- Edrychwch ar negeseuon diweddar ar faterion cyfiawnder cymdeithasol yng nghyd-destun eich eglwys leol. Ydyn nhw'n rhagweithiol neu'n adweithiol yn bennaf? Ydyn ni'n cymryd yn ganiataol bod pobl yn deall o ba gyfeiriad y down ni o ran ein gwerthoedd?
- Ystyriwch estyn allan i ddangos undod â sefydliad neu unigolyn yn eich cymuned mewn sefyllfa lle cafwyd gelyniaeth tuag at eu gwaith.
- Aseswch pa mor barod fyddai eich eglwys i ymateb i sefyllfa argyfyngus neu frys. Fyddai hi mewn sefyllfa i ymuno mewn ymateb cymunedol ar y cyd, neu gynnull ymateb o'r fath? Os nad ydyw, pa gamau y gallai fod angen i chi eu cymryd?

### Gweddi

Arglwydd,
Gweddïwn dros bawb sy'n arwain yn ein cymunedau,
y byddant yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi
i weithio er lles cyffredin.
Gweddïwn yn arbennig dros yr arweinwyr hynny
sydd wedi bod yn destun cam-drin neu ymosodiad
oherwydd eu hymrwymiad i waith cyfiawnder.
Ysbrydola pob un ohonom
i ganfod y cyfleoedd cywir
i ddangos arweiniad
mewn ysbryd o bartneriaeth ac undod.
Lle mae cymunedau dan bwysau
gweddïwn fod eu harweinwyr
yn rhoi eu gwahaniaethau o'r neilltu
i ddod â phobl at ei gilydd
a chyflwyno rhodd
trawsnewidiol gobaith. Amen.

## Gweddi ar gyfer Sul y Blodau

O Arglwydd, ein Tad nefol,
Ar y Sul arbennig hwn, Sul y Blodau,
deuwn ger dy fron gyda chalonnau yn llawn o ddiolchgarwch a moliant.
Cofiwn heddiw am Iesu Grist yn cyrraedd dinas Jerwsalem,
mewn ysbryd o wyleidd-dra a gostyngeiddrwydd,
yn marchogaeth ar ebol asyn,
tra oedd y torfeydd yn ei groesawu gyda changhennau palmwydd
ac yn gweiddi “Hosanna i fab Dafydd,
Bendigedig yw’r Un sy’n dod yn enw’r Arglwydd.”

Arglwydd, fel y torfeydd hynny gynt,
helpa ninnau i’th groesawu di i mewn i’n bywydau ninnau,
nid yn unig gyda’n geiriau,
ond gyda ffydd fyw a real yn ein calonnau.
Helpa ni i fod yn ffyddlon i ti mewn gair a gweithred,
nid yn unig mewn cyfnodau o lawenydd a dathlu,
ond hefyd ar adegau lle byddwn yn wynebu heriau, amheuaeth a gofid.

Wrth i ni dy gyfarch ar ddechrau’r wythnos sanctaidd hon,
helpa ni i gerdded yn araf ac yn fyfyriol gydag Iesu ar hyd y ffordd,
gan anelu ein golygon tuag at y groes.
Cadw ni’n ymwybodol o’th gariad rhyfeddol tuag atom,
y cariad a amlygwyd wrth i ti gynnig dy unig fab yn aberth
er ein mwyn ni ac er mwyn y byd.

Arglwydd, maddau i ni pan fyddwn,
fel y torfeydd gynt,
yn newid ein meddyliau neu’n troi ein cefnau arnat.
Maddau i ni pan fydd ein ffydd yn wan
neu pan fyddwn yn anghofio am dy gariad.
Adnewydda ein hysbryd,
a llenwa ni â’th Ysbryd Glân
fel y gallwn fyw fel dy bobl di yn y byd heddiw.

Gweddïwn dros dy eglwys di, ar hyd a lled y byd;
y bydd iddi fedru tystio yn ffyddlon i’th Efengyl.
Bendithia dy eglwys yma yng Nghymru;
bendithia’r rhai sy’n arwain ac yn ysbrydoli,
y rhai sy’n gwasanaethu’n ffyddlon o wythnos i wythnos,
a’r rhai sy’n dod ynghyd i dy addoli di yn gyson.

Gweddïwn dros ein cymunedau a’n teuluoedd,
a thros bawb sy’n annwyl yn ein golwg.
Bydd gyda’r rhai sy’n sâl, y rhai sy’n unig,
y rhai sy’n poeni neu’n galaru.
Rho dy gysur i’r rhai sydd mewn tristwch,
nerth i’r rhai sydd mewn gwendid,
a gobaith i’r rhai sydd wedi colli pob ystyr a phwrpas.

Cofia hefyd, O Dad nefol,
am fyd sydd mewn angen am heddwch a thangnefedd.
Lle mae rhyfeloedd yn digwydd, deisyfwn am heddwch;
lle mae anghyfiawnder, deisyfwn am gyfiawnder;
a lle mae ofn a dychryn yn rheoli, deisyfwn am obaith newydd.

Wrth i ni symud o ddydd i ddydd ar hyd yr wythnos sanctaidd hon,
helpa ni i baratoi ein calonnau ar gyfer llawenydd mawr y Pasg.
Boed i oleuni’r atgyfodiad ein hatgoffa ni
fod dy gariad yn gryfach na phechod,
yn gryfach na phoen,
ac yn gryfach na marwolaeth ei hun.

Diolchwn am fuddigoliaeth y groes, am y bedd gwag
ac am yr Iesu atgyfodedig.

Clyw ein gweddi, O Arglwydd,
a derbyn ein mawl,
yn enw Iesu Grist, ein Harglwydd a’n Gwaredwr. Amen

*Aled Davies*

# Rhyfel Iran

Mae yna dros ddwy flynedd ers i ni gychwyn cyfarfod yma a rhybuddio y gallai rhyfel Netanyahu a Trump yn Gaza arwain at ryfel ehangach. Bellach, gan ddiystyru deddfau rhyngwladol, maent wedi mynd i ryfela yn Iran – rhyfel sydd wedi ymledu drwy’r Dwyrain Canol ac a allai arwain at ryfel byd.

Pam? Dyw Trump ddim yn siŵr, ac mae’n newid ei feddwl drwy’r amser.

Un o’i resymau yw’r peryg, medde fo, y gall Iran gynhyrchu arfau niwclear. Pan ymosodwyd ddiwethaf ar Iran cyn y rhyfel yma, fe ddywedodd Trump y byddai’n amhosib i Iran ddatblygu arfau niwclear wedyn – celwydd amlwg. Lle ydyn ni wedi clywed hyn o’r blaen? Wel, pan arweiniodd Tony Blair ni i ryfel yn Irac efo canlyniadau trychinebus, efo’r un rheswm celwyddog.

Mae Trump wedi newid ei feddwl eto, a dweud mai ymosod mae o i achub pobol Iran o ormes Khamenei a’i ddilynwyr. Mae’n wir fod pobol Iran wedi dioddef yn enbyd dan eu rheolaeth. Ond nid bomio ysgolion a lladd dros 160 o blant, dinistrio’u cartrefi a chreu anhrefn a gwrthdaro mewnol sy’n mynd i wneud hynny. Rhagrith gan ddyn sy’n defnyddio ICE i ormesu dinasyddion yr Unol Daleithiau ydi hyn.

Mae Trump wedi dod â thrafodaethau hefo Iran i ben, ac am ymestyn ei imperialaeth drwy fynnu cael rhan yn llywodraeth y wlad honno. Fe fyddai hynny, mae’n siŵr, yn caniatáu iddo ddwyn eu holew, fel y mae’n ceisio’i wneud yn Venezuela. Ac mae’r cyfoethogion sy’n cynhyrchu’r arfau dieflig hyn a’r rhai sy’n datblygu’r dechnoleg sydd ynddynt wrth eu boddau ac yn gwneud elw mawr. Does dim prinder arian i gynhyrchu’r rhain, ond ychydig iawn sydd ar gael ar gyfer iechyd, addysg a chymorth i wledydd anghenus – pethau fyddai’n gyfrwng i atal gwrthdaro.

Ymosod wnaeth o i blesio’i gyd-ormeswr Seionaidd Netanyahu, un sydd wedi bod yn ysu i ddistrywio Iran ers blynyddoedd. Mae Netanyahu yn gallu beirniadu Iran am eu hymosodiadau ffiaidd ar eu pobl, ond yn fodlon lladd dros 70,000 o Balestiniaid ac yn dal i ormesu yn Gaza.

Mae’r rhyfel yn ymledu: mae Israel yn ymosod ar Lebanon, ac mae Iran yn targedu gwledydd y Dwyrain Canol sydd â thuag ugain o ganolfannau milwrol yr Unol Daleithiau ynddynt. Ac mae China a Rwsia yn gefnogol i Iran, ac yn ei harfogi. Mae Putin yn feirniadol o Trump am ddechrau’r rhyfel ond wedi gwneud yn union yr un fath yn Wcráin.

Mae Trump yn feirniadol o Starmer gan ei gyhuddo o beidio ymuno yn y gyflafan, a rhaid i hynny barhau. Ond, drwy ganiatáu i’r Unol Daleithiau ddefnyddio safleoedd militaraidd Prydain ac anfon arfau i Israel, mae’n caniatáu cefnogaeth i’r rhyfel. Mae yna dystiolaeth fod dros 20,000 o Brydeinwyr wedi bod yn cynorthwyo’r IDF.

Y rhai sydd ac a fydd yn dioddef ydi pobl Iran. Bydd bywydau’n cael eu colli, yr adeiledd a’r economi’n cael eu dinistrio, anhrefn a gwrthdaro mewnol yn debygol yn y wlad.

Rydyn ni yma i geisio byd cymodlon. Allwn ni ddim bod yn dawel a chaniatáu i’r anfadwaith yma barhau.

Rhaid i ni argyhoeddi ein harweinyddion a’u cefnogwyr o ffolineb pob rhyfel. Rydw i am orffen efo geiriau Martin Luther King, sy’n berthnasol iawn oherwydd y tywyllwch y mae pobol Iran wedi ei ddioddef a’r tywyllwch maent ynddo ar hyn o bryd: ‘All tywyllwch ddim dileu tywyllwch; dim ond golau all wneud hynny. All casineb (na rhyfel) ddim dileu casineb; dim ond cariad all wneud hynny.’

Rhaid i ni beidio â digalonni yn ein hymdrech i gael byd cyfiawn a chymodol. Gwneud dim byd sy’n caniatáu i ddrygioni ffynnu. RHAID i ni ddyfalbarhau nes llwyddwn ni.

*(Cyflwynwyd mewn gwylnos yng Nghaernarfon gan Dr Gwyn Williams)*

# Hanes Ebeneser Caerdydd 1826–2026

### Edrych ymlaen

Wrth edrych ymlaen tua’r dyfodol hoffem nodi dau beth fu’n allweddol yn hanes Ebeneser sy’n ein hysgogi i symud ymlaen yn hyderus tua’r dyfodol.

Y cyntaf oedd digwyddiad a fu oddeutu 1870. Yn y cyfnod hwn tyfai’r dref yn gyflym i gyfeiriad dwyreiniol y Splot o ganlyniad i ddylifiad llawer iawn o Saeson yma o Ddyfnaint a Gwlad yr Haf. Penderfynwyd mai peth doeth fyddai cychwyn achos Saesneg yno er bod eglwys Charles Street eisoes wedi agor ysgol Sul yn Comet Street. Yr oedd y Parchg John Davies, gweinidog eglwys Annibynnol Hannah Street, yn ardal y dociau, yn frwdfrydig iawn o blaid yr ‘Inglish Cause’ a chredai’n argyhoeddedig mai Saesneg fyddai iaith pob eglwys a chapel yng Nghaerdydd maes o law.

Yn wir, fe ddaeth i Ebeneser un nos Sul, pan oedd yr eglwys heb weinidog, i gyfarch y gynulleidfa. Ei fwriad oedd cymell eglwys Ebeneser i droi yn achos Saesneg, oherwydd mai dyna fyddai ei phrif obaith am y dyfodol. Ond atebwyd ef yn ddiflewyn ar dafod gan y swyddogion, fod eglwys Saesneg Charles Street yn yr heol nesaf, ac mai ‘bwriad sylfaenwyr Ebeneser oedd darparu cartref Cristnogol Cymraeg i’r Cymry fyddai’n dod i’r dref, a’u bod yn ystyried yr ymddiriedaeth yn un gysegredig ac anorfod.’

Dengys hanes mai aelodau Ebeneser oedd yn iawn trwy ddewis parhau i weithredu a byw trwy gyfrwng y Gymraeg. Y mae eglwysi Hannah Street a Charles Street wedi cau ers degawdau lawer. Tybed beth fyddai’r Parchg John Davies yn ei feddwl pe gwyddai fod eglwys Gymraeg Ebeneser, maes o law, wedi cymryd drosodd adeilad eglwys Saesneg Charles Street.



Eglwys Gymraeg yw Ebeneser ac eglwys Gymraeg fydd Ebeneser sydd yn gweld o hyd bod ei chenhadaeth gan yr Arglwydd yn arbennig ar gyfer Cymry Cymraeg yn y ddinas hon. Gweddïwn y bydd Duw yn ein defnyddio fel cyfryngau yn ei law i rannu’r Efengyl yn effeithiol. Rhaid nodi ein bod fel eglwys yn cydweithio gyda nifer o eglwysi Saesneg a bod ein cenhadaeth ehangach yn cynnwys pawb.

### Eglwys genhadol

Ac yn ystod y ddwy ganrif y mae Cristnogion, trwy gyfrwng Ebeneser wedi rhannu newyddion da yr Efengyl mewn gair a gweithred. Yn y gymdeithas hon o bobl Iesu Grist bu pregethu grymus, gwasanaethu’r tlawd a’r anghenus, gweddïo taer, gorfoledd, canu eneiniedig, diwygiadau, twf a lleihad. Addaswyd yn ddeheuig i amgylchiadau a newidiadau cymdeithasol. Wrth edrych yn ôl diolchwn heddiw am gael bod yn rhan o linach arbennig o bobl Dduw gan fod yn ymwybodol mai ni sydd nawr yn cario’r ffagl. Gweddïwn yn daer y bydd Duw yn ein cymhwyso fel cynulleidfa i her ein hoes fel ein bod eto yn cyhoeddi Iesu Grist yn effeithiol ac yn enillgar.

Yng nghyfrol dathlu penblwydd yr eglwys yn 150 oed a gyhoeddwyd yn 1976 ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Aneurin Lewis fel hyn. (Cofiwn fod y dyfodol yn ansicr ar y pryd gan fod gorchymyn pryniant gorfodol ar ein hadeilad ym Mharadise Place oddeutu 1977):

> Eleni, yr ydym yn dathlu canmlwyddiant a hanner sefydlu’r achos a elwir yn Ebeneser. Canrif a hanner o dystiolaeth Gristionogol yng Nghaerdydd yn yr iaith Gymraeg ac yn ôl trefn yr Annibynwyr. Y mae’r adeilad a’r tir y saif arno yn eiddo i ni heddiw am fod y rhai a aeth o’n blaen wedi talu amdano ac o safbwynt ariannol yn unig, y mae’n werth llawer mwy na’r hyn a gynigir yn ei le. I’r cynllunwyr, nid yw ond adeilad i’w chwalu er mwyn hyrwyddo balchder dinesig a hwyluso olwynion masnach gyfalafol. I ni sy’n aelodau, y mae’n gysegr sy’n trysori gwerthoedd a grymusterau moesol ac ysbrydol a fu’n llunio hanes cenedl y Cymry. Y mae hanes Ebeneser yn rhan o hanes Cymru a ninnau`n etifeddion treftadaeth gyfoethog. Felly, beth bynnag a ddigwydd i’r adeilad y mae’n rhaid amddiffyn a diogelu’r gymdeithas a glynu wrth hanfodion ei bodolaeth. Ystyr hynny i Annibynwyr ydyw ein bod, bob un ohonom, yn meddiannu ein treftadaeth, yn ei chyfoethogi â`n presenoldeb ac â’n gwasanaeth ac yn ei throsglwyddo’n etifeddiaeth deg i`r rhai a ddaw ar ein hôl.

Wrth ddathlu a diolch am yr hyn a fu, edrychwn ymlaen yn hyderus i’r dyfodol, nid oherwydd pwy ydym ni ond oherwydd pwy yw ein Harglwydd. Am 200 mlynedd y mae Ef wedi bendithio ein tystiolaeth ac wedi ein harwain a’n donio trwy’r Ysbryd Glân. Rydym yn gwbl argyhoeddedig y bydd yn gwneud hynny eto i’r dyfodol dim ond i ni gadw’n ffyddlon iddo.

> Ymaith gan hynny â phob drygioni a phob twyll a rhagrith a chenfigen, a phob siarad bychanus! Fel babanod newydd eu geni, blysiwch am laeth ysbrydol pur, er mwyn ichwi drwyddo gynyddu i iachawdwriaeth, os ydych wedi profi tiriondeb yr Arglwydd. Wrth ddod ato ef, y maen bywiol, gwrthodedig gan bobl ond etholedig a chlodfawr gan Dduw, yr ydych chwithau hefyd, fel meini bywiol, yn cael eich adeiladu yn dŷ ysbrydol, i fod yn offeiriadaeth sanctaidd, er mwyn offrymu aberthau ysbrydol, cymeradwy gan Dduw trwy Iesu Grist. (1 Pe 2:1–5)


Eglwys Annibynnol Heol Awst, Caerfyrddin SA31 3AP

**Cyngerdd Dathlu 300 Mlwyddiant Capel Heol Awst**

**DYDD SUL, 22 MAWRTH 2026**
**AM 6.00 YR HWYR**

Artistiaid:
Fflur Wyn (Soprano)
Côr Ysgol Bro Myrddin
Adran yr Urdd Ffynnonddrain

Cyfeilydd – Sioned Beynon
Organydd – Meirion Wynn Jones

Cadeirydd – Prif Gwnstabl Ifan Charles, Heddlu Dyfed-Powys

Llywydd – Y Parchedig Beti-Wyn James
Gweinidog

Mynediad £10 wrth y drws
Plant ysgol am ddim

*Croeso Cynnes i bawb*

Elw’r noson i’w rannu rhwng:
Côr Ysgol Bro Myrddin ac Adran yr Urdd Ffynnonddrain

# Barn Annibynnol

## ‘Gweithred brydferth a wnaeth hi i mi.’

Ychydig amser yn ôl, dewiswyd Syed Usman Shah, a anwyd ym Mhrydain, i gael ei lun ar boster mawr – ochr yn ochr â lluniau o bobl eraill o Brydain – yn croesawu ymwelwyr oedd yn cyrraedd Prydain drwy faes awyr Heathrow, er mwyn dathlu’r amrywiaeth pobl sy’n byw yma. Yn y llun, mae’n ymddangos o flaen y poster gyda’i rieni, a ddaethant i fyw yma o Bacistan ym 1980. Ond arweiniodd y poster at doreth o sylwadau creulon ar y cyfryngau cymdeithasol yn dweud wrtho am fynd adre ac yn cwyno bod y wlad yn cael ei goresgyn gan bobl o dramor. Ond yn hytrach nag ymateb gyda chasineb, fe ymatebodd gyda charedigrwydd: ‘Rwy’n maddau i bawb ohonoch a ddwedodd bethau creulon amdanaf ac yn eich gwahodd chi i rannu datys gyda mi ym Marchnad y Boro’ yn Llundain.’ Roedd yn bwriadu ymladd casineb gyda chariad ac am wneud y byd yn well.

Bu’r ymateb yn anhygoel. Derbyniodd 246 e-bost yn ei gefnogi, a daeth nifer fawr i’r farchnad i rannu datys gydag ef. Er iddo gynnig gostyngiad sylweddol os oedd pobl am brynu datys a nwyddau eraill ganddo, gwrthododd pobl dderbyn gostyngiad gan mai eu dymuniad oedd ei gefnogi. ‘Roedd yn beth brydferth iawn. Cefais fy synnu gan gymaint o gariad a ddangoswyd tuag ataf.’

### Un gwaed

A dyma fy herio i gofio bod angen i ni atgoffa’n hunain ac atgoffa’n gilydd o bwy ydym fel rhan o’r ddynolryw amrywiol, gyfoethog sy’n byw ar y ddaearen hon. Shylock sy’n dweud yn nrama Shakespeare, *The Merchant of Venice*: ‘If you prick us, do we not bleed? If you tickle us, do we not laugh? If you poison us, do we not die? And if you wrong us, shall we not revenge?’ Byddai Syed Usman Shah yn adleisio’r tri chwestiwn cyntaf ond, yn ôl pob tebyg, yn gwrthod yr olaf. Mae ef am garu yn hytrach na dial. Byddem ni fel Cristnogion am ddweud mai sail ein cred ni yn undod a chynghanedd y ddynolryw yw Genesis 1:26, sef, i ni oll gael ein creu ar ddelw Duw, a’i fod wedi llunio’r ddynolryw gyfan ‘o un gwaed i drigo ar wyneb y ddaear’ (Actau 17:26).

### Harmoni a chymod

Erbyn hyn, rydym yn dechrau troi’n sylw at Sul y Blodau neu Sul y Palmwydd, pan fyddwn yn dathlu taith Iesu i mewn i Jerwsalem ar gychwyn yr Wythnos Fawr, sy’n arwain at greulondeb Dydd Gwener y Groglith a buddugoliaeth y Pasg. Nid taith o greulondeb yn datgan goruchafiaeth filwrol dros elynion oedd hon ond taith oedd yn tystio i dangnefedd a harmoni a chymod. Yng ngeiriau Sechareia: ‘Llawenha’n fawr, ferch Seion; bloeddia’n uchel, ferch Jerwsalem. Wele dy frenin yn dod atat â buddugoliaeth a gwaredigaeth, yn ostyngedig ac yn marchogaeth ar asyn, ar ebol, llwdn asen. Tyr ymaith y cerbyd o Effraim a’r meirch o Jerwsalem; a thorrir ymaith y bwa rhyfel. Bydd yn siarad heddwch â’r cenhedloedd; bydd ei lywodraeth o fôr i fôr, o’r Ewffrates hyd derfynau’r ddaear.’ (Sech 9:9–10)

### Mwy o ladd?

Mor wahanol yw hyn i’r drychineb sy’n digwydd yn y Dwyrain Canol ar hyn o bryd. Does neb yn gwadu’r bygythiad i heddwch y byd y mae Iran yn ei gynrychioli, gyda’r bomio a’r lladd a’r dinistrio sydd wedi digwydd ac yn dal i ddigwydd. Ond ai drwy fomio diwahaniaeth sy’n talu’r pwyth yn ôl ac sy’n lladd a niweidio a dinistrio’n ddidrugaredd a didostur y mae sicrhau diogelwch y byd i’r dyfodol? Er creuloned y bygythiad i heddwch y byd, ‘Gwnaeth Duw o un gwaed …’ Mae suddo llongau rhyfel a llongau masnach, fel mae’r Arlywydd Trump ac arweinyddiaeth Iran wedi ymffrostio ynddo, yn golygu colli cannoedd o fywydau yn ogystal â dinistrio llongau – pobl ‘o un gwaed’ sydd wedi’u creu, fel ninnau, ‘ar ddelw Duw’. A beth am y brolio fod y rhyfel ‘wedi ei ennill, ond ‘ddim wedi ei ennill yn ddigonol’ (*not won enough!* Beth bynnag y mae hynny’n ei olygu.*)*. Beth fwy sydd ei angen? Mwy o ladd, mwy o ddinistrio, mwy o greulondeb, ymdrech fwy i greu byd lle mae pawb fel ni?

### Prydferthwch

Dyma pam mae geiriau Syed Usman Shah mor rymus, ‘Roedd yn beth brydferth iawn. Cefais fy synnu gan gymaint o gariad a ddangoswyd tuag ataf.’ Cefais fy atgoffa o eiriau Iesu a recordir gan Fathew, yn dilyn ei siwrnai gymodlon i mewn i Jerwsalem, pan eneiniodd y wraig draed Iesu ym Methania a’u sychu â’i gwallt. Pan feirniadwyd hi’n hallt, ymateb Iesu oedd, ‘Gweithred brydferth a wnaeth hi i mi … Pa le bynnag y pregethir yr Efengyl yma yn yr holl fyd, adroddir hefyd yr hyn a wnaeth hon, er cof amdani’ (Mathew 26:11–13).

Wrth i ni deithio drwy’r Grawys a thuag at yr Wythnos Fawr, cawn ein galw i gynnig esiampl o brydferthwch cariad, maddeuant a thangnefedd Efengyl Iesu.

**Noel Davies**

(Nid yw’r hyn a ysgrifennir yn yr erthyglau Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr nac ychwaith y tîm golygyddol.)




## Penderfyniadau

**Undeb yr Annibynwyr Cymraeg**
**Cyfarfodydd Blynyddol 2026**

Cyfundeb Gorllewin Morgannwg
Gwesty’r Towers, Abertawe
24–26 Mehefin, 2026

Rhaid i rybudd o bob penderfyniad sydd i’w cyflwyno yn y gynhadledd eleni gyrraedd yr Ysgrifennydd Cyffredinol erbyn 8 Mai fan bellaf. Bydd angen llofnod cynigydd ac eilydd ar bob penderfyniad.

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Pump y Pasg

Heb ddatgelu gormod, ond mae gennym newyddion cyffrous bod pum ffilm fer animeiddiedig yn cael eu rhyddhau cyn y Pasg gan yr Undeb.

Bu prosiect ar y gweill yn ystod y misoedd diwethaf i greu deunydd gwreiddiol Cymraeg er mwyn adrodd hanes marwolaeth ac atgyfodiad yr Iesu. Mae pum ffilm, munud o hyd, yn cael eu cynhyrchu er mwyn i ni eu defnyddio. Maent yn seiliedig ar sgript sydd wedi ei greu gan Eirug Salisbury. Dyma ei ddisgrifiad o Sul y Blodau:

'Hosana, fab Dafydd!'
Prynhawn llawn llawenydd
Yn hen ddinas Dafydd,
A'r holl hewlydd hir
Yn orlawn o fwrlwm,
Iesu yw'r rheswm,
Dewch, bawb, gyda'ch offrwm,
Mae cyffro'n y tir.

Jerwsalem,
Mi glywaist gân
Dy bobl oll gan gwaith o'r bla'n,
Ond hwn sy heddi ar wahân,
Mae'r brenin 'ma'n
Wahanol.

Nid ar farch mae hwn, na, nid fe,
Ond ar asyn,
Ac o'r dre,
O bell iawn ac o bob lle,
I'w nabod e
Daw'r bobol.

Rhagor o fanylion i ddilyn yn fuan.




# Gwahoddiad i Encil

Dydd Mercher, Ebrill 22 – Dydd Iau, Ebrill 23
Yng Ngwesty Radison RED, Lerpwl

++++++++++++++++++++++++

Eleni, mae Encil y Gweinidogion yn ymweld â dinas Lerpwl, a charem eich gwahodd i ymuno â ni ar gyfer yr ail gymal.

Gofynnir am gyfraniad o £50 y person, a hynny'n cynnwys popeth a nodir yn yr amserlen isod.

Sylwch y bydd angen i bawb drefnu eu llety eu hunain.

I dderbyn y pecyn gwybodaeth, ac i gofrestru, cysylltwch â: carwyn@annibynwyr.cymru

*Croeso cynnes i bawb*



**Nos Fercher, Ebrill 22**

17:15 Swper yng ngwesty Radison RED, Lerpwl
19:30 Darlith goffa Dr Pennar Davies a Dr Tudur Jones.
'Eglwys Rydd y Cymry' gan y Parchedig Ddr Geraint Tudur

**Dydd Iau, Ebrill 23**

09:00 Defosiwn a Seminar yn trafod agweddau o'r Ddarlith Goffa
10:15 Cenhadaeth yr eglwys mewn cymuned aml-ffydd.
Tystiolaeth eglwysi Lerpwl.
11:00 Defosiwn i gloi'r encil dan arweiniad y Parchedig Owain Llŷr
11:30 Cinio ac ymadael

# BUGEILIO'N GILYDD

**'Gofalwch amdanoch eich hunain ac am yr holl braidd'** (Actau 20:28)

Ydych chi'n angerddol dros estyn gofal a chariad?
Ydych chi'n teimlo galwad i estyn gofal bugeiliol?
Ydych chi awydd dysgu mwy am fugeilio'n gilydd?

**Dyma wahoddiad i chi ddilyn y modiwl 'Bugeilio'n Gilydd'.**

Nos Lun, Chwefror 2, 9, 23, Mawrth 2, 9, 16, 23 a 30
7:00 – 8:30 o'r gloch ar Zoom,
dan arweiniad y Parchedig Carwyn Siddall.

Am fwy o wybodaeth, neu i gofrestru: carwyn@annibynwyr.cymru

**Croeso cynnes i bawb**



# PROSIECT DENMAN 2026

Ein hysgol Sul: **'Newid ein byd er gwell'**

Ewch ati i greu podlediad / hysbyseb / fideo (hyd at 5 munud o hyd) neu waith celf ar y thema 'Newid ein byd er gwell'



Erbyn dydd Iau
4 Mehefin 2026

E-bostiwch:
rhodri@annibynwyr.cymru

Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Glanyrafon, Abertawe SA7 0AJ



MANYLION:

01792 795888
annibynwyr.cymru

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*